# CRAIG-Y-PARC



## GWERTHUSIAD O'R ARDAL GADWRAETH

CAERDYDD

CARDIFF
CAERDYDD

2007

# cynnwys


**Map 1** – **Ffin Ddiwygiedig Ardal Gadwraeth Craig-y-Parc, Mabwysiadwyd 2007**

**1. CYFLWYNIAD**
- 1.1 Ardaloedd Cadwraeth
- 1.2 Gwerthusiadau
- 1.3 Cyd-destun y Polisi

**2. Y CYD-DESTUN HANESYDDOL**
- 2.1 Gwreiddiau Hanesyddol a Datblygiad yr Ardal

**3. ASESU CYMERIAD YR ARDAL**
- 3.1 Ansawdd Unigryw y Lle
- 3.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod a Nodweddion Tirwedd
- 3.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat
- 3.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun
- 3.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel
- 3.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel
  - Map Treflun o Ardal Gadwraeth Craig-y-Parc
  - Llun o'r Awyr o Ardal Gadwraeth Craig-y-Parc

**4. ARDALOEDD Â CHYMERIAD**

**5. MATERION PERTHNASOL A CHYFLEOEDD**
- 5.1 Materion
- 5.2 Cyfleoedd i Ddiogelu a Gwella

**6. FFRAMWAITH AR GYFER GWEITHREDU**
- 6.1 Cefndir
- 6.2 Prif Bwrpas y Gwerthusiad
- 6.3 Manteision y Gwerthusiad
- 6.4 Pwysau i Newid
- 6.5 Cydweithio i Sicrhau Canlyniadau

**7. ARGYMHELLION**

**8. YMGYNGHORIAD**

Atodiad 1 - Canllaw i'r Rheiny sy'n Cynllunio Datblygiadau yn yr Ardal Gadwraeth

Atodiad 2 - Cyngor am Goed a Thirlunio

Atodiad 3 - Adolygiad o'r Ffin


Atodiad 4 - Geirfa

Ffynonellau a Chyfeiriadau Cefndir

Diolchiadau

Manylion Cyswllt a Gwybodaeth

# Map 1
# Ffin Ddiwygiedig Ardal Gadwraeth Craig-y-Parc, Mabwysiadwyd 2007



## 1.1 Ardaloedd Cadwraeth

Mae Ardaloedd Cadwraeth yn ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Yr Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n penderfynu dynodi ardal yn Ardal Gadwraeth, a hynny ar ôl asesu cymeriad yr ardal honno. Mae hyn yn aml yn golygu asesu mwy na'r adeiladau'n unig. Gall cynllun y ffyrdd, golwg y strydoedd, coed a mannau gwyrdd i gyd gyfrannu at ansawdd yr ardal. Mae dynodi ardal yn diogelu'r cymeriad hwn, ac er mwyn cyflawni hyn mae gan y Cyngor ragor o reolaeth dros ddymchwel, mân ddatblygiadau a diogelu coed.

## 1.2 Gwerthusiadau

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i adolygu Ardaloedd Cadwraeth er mwyn penderfynu a oes angen newid y ffiniau a nodi camau posibl ar gyfer gwella a diogelu'r Ardal Gadwraeth. I reoli'r broses, mae Strategaeth Ardal Gadwraeth wedi'i pharatoi. Mae'r Strategaeth yn nodi blaenoriaethau i'r Ddinas, a'r meini prawf sydd i'w defnyddio wrth asesu ardaloedd presennol a rhai newydd. Mae'r meini prawf hyn wedi'u nodi yn Adran 4, 'Asesu'r Cymeriad'.

Mae'r gwerthusiad drafft hwn yn rhoi cyfle i benderfynu a oes angen newid ffin yr Ardal Gadwraeth; diffinio cymeriad yr Ardal a'r cyfleoedd i wella; ac ar ôl ymgynghori, mabwysiadu'r gwerthusiad a'r canllawiau i ddiogelu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

## 1.3 Cyd-destun y Polisi

Rhan allweddol o'r gwaith o werthuso yw diffinio cymeriad yr Ardal Gadwraeth, er mwyn paratoi canllawiau priodol ar ei chyfer. Gall polisïau eraill sy'n cyd-fynd â'r fframwaith cynllunio statudol gynorthwyo â'r gwaith hwn. Darperir hyn drwy Gynllun Datblygu Unedol Caerdydd, tan y bydd Cynllun Datblygu Lleol wedi cael ei baratoi.


# 2 y cyd-destun hanesyddol

## 2.1 Gwreiddiau Hanesyddol a Datblygiad yr Ardal

Lleolir pentref Pentyrch, sydd 7 milltir i'r gogledd-orllewin o Gaerdydd, ar lethrau deheuol Mynydd y Garth ym mhlwyf gwledig Pentyrch. Gwreiddiau amaethyddol sydd i'r pentref yn bennaf ac mae'r rhan fwyaf o hanes y pentref wedi ei ganoli o amgylch Eglwys St Cadwg, a sefydlwyd yn y chweched ganrif gan St Cadwg. Heddiw, fodd bynnag, mae canolbwynt ffisegol y pentref wedi symud i'r gogledd o ganlyniad i ddatblygiadau yn niwedd yr ugeinfed ganrif.

Mae tomenni claddu fel y 'ploryn' ar Fynydd y Garth yn dystiolaeth o bresenoldeb ymsefydlwyr cynnar y gellir ei olrhain cyn belled â 3,000 o flynyddoedd yn ôl. Bu gwreiddiau amaethyddol y pentref yn ffactor pwysig drwy gydol hanes y pentref ac mae'n dal i ddylanwadu ar y dirwedd y tu hwnt i ffiniau'r pentref.

Er bod rhannau eraill o'r plwyf wedi eu dylanwadu gan weithgarwch diwydiannol o ganlyniad i'r cyflenwad digonol lleol o fwyn haearn, glo a charreg galch, aros yn bentref amaethyddol wnaeth Pentyrch gydol ei hanes. Hyd yn oed yn ystod ail gyfnod y gweithgarwch diwydiannol yn y plwyf rhwng 1740 a 1915, a achosodd i'r boblogaeth dyfu o 460 yn 1801 i 2182 yn 1881 (er mwyn gwasanaethu'r glofeydd, y chwareli, y ffowndrïau, y ffwrneisi a'r gwaith brics), dywedir mai ar Waelod-y-garth yr effeithiodd hyn fwyaf, gan adael cymuned ffermio o amgylch pentref Pentyrch.





• Map o 1878 yn dangos natur amaethyddol ardal Craig-y-Parc. Mae rhai o adeiladau ffermydd Pentwyn a Llwyn-yr-eos yn dal i sefyll heddiw.

Mae map 1878 yr Arolwg Ordnans yn adlewyrchu pwysigrwydd amaethyddiaeth yn yr ardal, cyfnod pan oedd gweithgarwch diwydiannol yn gyffredin yn rhan ddwyreiniol y plwyf. Gellir gweld ffermydd Pentwyn a Llwyn-yr-eos ar y map, ffermydd sydd â rhai o'u hadeiladau wedi goroesi.

Mae plwyf Pentyrch yn parhau â'i gysylltiadau ag amaethyddiaeth, er bod nifer y ffermydd gweithredol yn yr ardal wedi gostwng yn ogystal â'r nifer a gyflogir gan amaethyddiaeth. Heddiw, fel holl bentrefi'r plwyf, mae gan bentref Pentyrch nodwedd ychwanegol fel ardal breswyl a chymudo gyda'r rhan fwyaf o'r trigolion yn gweithio y tu allan i'r plwyf. Mae hyn yn cynnal elfennau nodweddiadol y pentref fel ysgol, siopau, addoldai, tafarndai a neuadd y pentref.

Fel y gellir gweld o'r cynllun isod o 1942, yn araf a fesul tipyn yr esblygodd ardal Craig-y-Parc. Yn gyffredinol ni welodd yr ardal hon o Bentyrch ddatblygiadau preswyl nad oedd yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth hyd ddechrau'r ugeinfed ganrif. Erbyn 1942 roedd trigfan Craig-y-Parc wedi ei hadeiladu (1913-1925) yn ogystal â bythynnod Elm, Pentwyn a Cotswold a'r grŵp o adeiladau tebyg ond eto unigolyddol Trewen, The Rise, Llyswen, Wyngarth a Bron-y-de, sef pum eiddo mwyaf gogleddol yr Ardal Gadwraeth heddiw.




• Map o 1942 yn dangos twf cynyddol ardal Craig-y-Parc ym Mhentyrch.

Yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif digwyddodd datblygiadau sylweddol i'r gogledd o'r Ardal Gadwraeth a digwyddodd peth datblygiadau mewnlenwad yn yr ardal. Fodd bynnag, mae'r nifer fechan o ddatblygiadau yn ardal Craig-y-Parc yn golygu bod ei chymeriad gwledig wedi ei gadw, fel y gwelir yn Map 1 sy'n dangos yr ardal fel y mae hi heddiw.

Mae oedran, hanes a natur wreiddiol Ardal Gadwraeth Craig-y-Parc i'w gweld yn amlwg heddiw drwy nodweddion fel y canlynol:

- Adeiladau fferm (nad ydynt bellach yn gysylltiedig â ffermydd gweithredol) a chaeau, sy'n adlewyrchu natur a hanes amaethyddol yr ardal.

- Tai mawr ar wahân o ddechrau'r ugeinfed ganrif sy'n adlewyrchu agweddau diwylliannol newidiol yn natblygiad y pentref.

- Adeiladau diweddarach o'r ugeinfed ganrif sy'n adlewyrchu defnydd cynyddol y pentref fel ardal breswyl/cymudo.

# asesu cymeriad yr ardal

Mae nifer o nodweddion allweddol wedi'u nodi i gynorthwyo â'r gwerthusiad o'r ardal. Y rhain yw:

- Ansawdd unigryw y lle,
- Presenoldeb adeiladau tirnod a nodweddion tirwedd,
- Hierarchaeth mannau cyhoeddus a phreifat,
- Deunyddiau lleol neu anarferol o ansawdd uchel yn y treflun
- Manylion pensaernïol o ansawdd uchel,
- Tirlunio caled a meddal o ansawdd uchel.

Ceir dadansoddiad byr o bob un isod.

## 3.1 Ansawdd Unigryw y Lle

Yn gyffredinol, natur wledig sydd i Ardal Gadwraeth Craig-y-Parc. Mae ei chymeriad wedi'i greu drwy gyfuniad o ffactorau gan gynnwys:

- ffurf y tir (dyffryn llydan sy'n disgyn o'r dwyrain i'r gorllewin drwy'r canol) a hwnnw wedi dylanwadu ar y defnydd o'r tir a datblygu;
- adeiladau (eu cynllun, lleoliad, gogwydd, graddfa a'u perthynas â'i gilydd);
- nodweddion ffiniol (cloddiau a waliau)
- y defnydd o'r tir (amaethyddiaeth, coetiroedd, tir preswyl, ysgol, priffordd)

Yn raddol y datblygodd yr Ardal Gadwraeth, ac mae ynddi adeiladau unigol o wahanol arddulliau ac oedrannau sydd ar y cyfan yn parchu ac yn defnyddio ffurf y tir a'r olwg wledig sy'n cael ei chreu gan y bryn.

### Adeiladau a'u Grwpiau:

Ar wahân i Graig-y-Parc, mae'r holl adeiladau wedi'u lleoli yng ngogledd yr Ardal Gadwraeth. Y ddau dŷ fferm yw'r adeiladau preswyl hynaf (sydd wedi'u lleoli ar fap 1878). Codwyd y gweddill ar adegau gwahanol yn ystod yr ugeinfed ganrif, ac mae eu cynllun yn adlewyrchu'n fras y steiliau a oedd yn nodweddiadol o'r cyfnodau dan sylw. Nid oes unrhyw arddull amlwg yn perthyn i adeiladau'r Ardal Gadwraeth.

Tra gellir gweld bod rhai o'r tai wedi'u hadeiladu o gwmpas yr un cyfnod, maent i gyd wedi'u cynllunio'n unigol a'u lleoli ar blotiau o siapiau gwahanol, gyda'r adeiladau'n gweddu i'r darnau hynny o dir ac yn rhoi'r golygfeydd gorau. O ganlyniad, mae nifer o'r adeiladau'n edrych dros y dyffryn yn hytrach na wynebu'r ffordd yn uniongyrchol. Ble mae'r adeiladau'n wynebu'r ffordd, maent yn aml wedi'u gosod yn ôl ar blotiau uchel. Ar y cyfan, adeiladau o ddiwedd yr ugeinfed ganrif yw'r rhain ac iddynt gynllun maestrefol.

Dim ond un grŵp preswyl nodedig sydd i'w gael, sef y pum adeilad mwyaf gogleddol. Mae gan y rhain yr un nodweddion pensaernïol gan gynnwys y gorffeniadau a siapiau'r toeau, sy'n cael eu disgrifio'n ddiweddarach.







- Tŷ Ffarm Llwyn-yr-eos
- Un allan o'r pump adeilad mwyaf gogleddol
- Tŷ o ddiwedd yr ugeinfed ganrif wedi'i adeiladu yn ôl o'r ffordd ar dir u









- 1 allan o'r 5 adeilad mwyaf gogleddol
- Tai allan amaethyddol
- Tŷ Craig-y-Parc
- Golygfeydd o'r Ardal Gadwraeth o'r hawliau tramwy cyhoeddus i'r dwyrain

A Mae ail grŵp yn cynnwys y tai allan amaethyddol (heb gynnwys y stablau anawdurdodedig) sydd yng nghanol yr Ardal Gadwraeth. Er bod eu cyflwr yn amrywio a bod arnynt ddeunyddiau gwahanol, maent yn nodweddion gwledig sy'n cyfrannu at gymeriad yr Ardal Gadwraeth.

Y trydydd grŵp o adeiladau yw tŷ a gardd bwysig Craig-y-Parc. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys plasty, porthdy, logia a datblygiadau o ddiwedd yr ugeinfed ganrif. Wedi'u hadeiladu mewn steil Celf a Chrefft ac o ddeunyddiau lleol, mae gwerth pensaernïol eithriadol i Graig-y-Parc. Mae'r adeiladau wedi'u gosod ar wahân i weddill adeiladau'r pentref ac ar yr ochr arall i'r cwm, gyda'r rhan fwyaf o'r prif adeilad a'r ardd o'r golwg. Dim ond y porthdy a rhai o'r adeiladau ymylol sydd i'w gweld yn rhwydd o'r Ardal Gadwraeth.

## Graddfa:

Yn gyffredinol, graddfa ddomestig sydd i'r adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth. Tai allan amaethyddol ynghyd â phâr o fythynnod yw'r adeiladau lleiaf, sef bythynnod Pentwyn a Cotswold sy'n gymharol fach o ran maint. Mae gweddill y tai, ar wahân i Graig-y-Parc, yn adeiladau unigol deulawr o faint cymedrol gydag estyniadau, addasiadau neu waith ailadeiladu wedi'i wneud ar lawer. Mae'r bylchau rhwng yr adeiladau, eu pellter o'r ffordd, ac ambell waith y ffordd maent yn wynebu yn lleihau eu graddfa a'u heffaith.

Mae tŷ Craig-y-Parc ei hun ben ac ysgwydd uwch y gweddill o ran graddfa. Dyma'r tŷ mwyaf a'r mwyaf addurnedig, gyda'i faint a'r manyldeb pensaernïol yn adlewyrchu nid yn unig y cyfnod adeiladu ond hefyd statws y perchennog gwreiddiol.

## Golygfeydd:

O ganlyniad i ffurf y tir a llwybr y ffordd, mae'r golygfeydd drwy'r ardal yn newid yn aml. Yn y gogledd, mae'r golygfeydd o'r Ardal Gadwraeth wedi'u cyfyngu gan leoliad y ffordd a'r cloddiau ffiniol uchel sy'n cuddio'r tai y tu ôl iddynt. Mae'r golygfeydd o'r tai, y caeau a phorthdy a choedwigoedd Craig-y-Parc yn agor fodd bynnag wrth ddilyn y ffordd i'r de i'r man isaf yng nghanol yr Ardal Gadwraeth.

O'r de, gellir gweld caeau a thai'r Ardal Gadwraeth ynghyd â gweddill Pentyrch y tu ôl iddynt. Fodd bynnag, nid yw'r rhain i'w gweld o ysgol Craig-y-Parc o ganlyniad i leoliad ei hadeiladau a'i choed.

Ceir golygfeydd gwahanol o'r Ardal Gadwraeth o ddilyn yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Maent hefyd yn rhoi golygfeydd o'r tir, y coedwigoedd a'r tai y tu allan i'r ffin, fel y mae'r ffordd sy'n rhedeg drwy'r canol. Mae'r Hawliau Tramwy Cyhoeddus y tu allan i'r Ardal Gadwraeth, yn enwedig y rhai i'r dwyrain ohoni, hefyd yn rhoi golygfeydd o'r ardal.

Mae'r golygfeydd eraill o'r Ardal Gadwraeth wedi'u cyfyngu ac ond i'w gweld ar y cyfan o Heol y Parc Road, i'r dwyrain o'r Ardal Gadwraeth,

# Patrymau Defnydd:

Dyma'r prif batrymau defnyddio tir yn yr Ardal Gadwraeth:

- Tai – o gynlluniau ac oedrannau amrywiol
- Amaethyddiaeth – yn benodol, tir pori a thir ceffylau
- Coetiroedd collddail – hefyd yn Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur
- Ysgol – yn nhŷ a gerddi Craig-y-Parc
- Llwybrau mynediad – gan gynnwys ffyrdd gwledig a hawliau tramwy cyhoeddus

Nid yw'r cydbwysedd rhwng y gwahanol ddefnyddiau hyn wedi newid ers dynodi'r Ardal Gadwraeth, ac mae'n gydbwysedd sy'n bwysig er mwyn cadw cymeriad gwledig yr ardal.

# 3.2 Presenoldeb Adeiladau Tirnod a Nodweddion Tirwedd

## Adeiladau Tirnod

Ar gyfer y gwerthusiad hwn, adeilad tirnod yw un sydd â chysylltiadau cymdeithasol a hanesyddol arwyddocaol gyda datblygiad yr ardal, sy'n unigryw yn ei leoliad, ac sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gymeriad yr ardal. Yn yr Ardal Gadwraeth, mae un adeilad wedi'i nodi'n adeilad tirnod, sef porthdy Ysgol Craig-y-Parc erbyn heddiw.

Dim ond un o blith sawl adeiledd sy'n gysylltiedig â chartref/ysgol Craig-y-Parc yw'r porthdy. Mae wedi'i nodi gan Cadw yn adeilad Rhestredig Gradd II, gyda strwythur o dywodfaen coch a llechi/teils ar lefel y llawr cyntaf, to talcennog serth gyda llechi bychain, bargodion sy'n crogi dros y waliau, simneiau cerrig llwyd sylweddol, ffenestri gyda chwareli niferus a gatiau haearn addurnol. Yn sefyll ar ochr y ffordd, mae'r porthdy'n un o'r tri adeilad sy'n gysylltiedig ag ysgol Craig-y-Parc ac i'w weld yn amlwg o'r ffordd a'r ardal ehangach. Fodd bynnag, hwn yw'r unig adeilad o'r tri sydd wedi'i restru am ei rinweddau pensaernïol a'r unig un, gan ei fod yn borthdy, sy'n awgrymu bod adeilad mwy urddasol y tu hwnt iddo.

Prif adeilad cartref/ysgol Craig-y-Parc yw'r tŷ, a dyma'r adeilad mwyaf arwyddocaol yng nghyd-destun ei werth pensaernïol. Mae wedi'i restru'n adeilad Gradd II*, ac yn dŷ Celf a Chrefft trawiadol, sy'n eithriadol o'i fath yn ne Cymru. Mae ganddo'r rhan fwyaf o'r ffabrig a'r gosodiadau diddorol gwreiddiol, ac mae hefyd yn werthfawr gan ei fod mewn grŵp sy'n cynnwys y porthdy, logia a nodweddion eraill rhestredig yn yr ardd. Mae'r ardd hon hefyd yn un restredig Gradd II* yng Nghofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig Morgannwg. Mae'n ardd Gelf a Chrefft gyda nodweddion pensaernïol cryf, a honno wedi goroesi yn ei chyfanrwydd fel enghraifft dda o bensaernïaeth arddwriaethol Edwardaidd. Adeiladwyd y tŷ a'r ardd, a gynlluniwyd ill dau gan CE Mallows, rhwng 1913 ac 1915, ac mae cynllun echelinol cryf yn eu huno.

Fodd bynnag, tra bo tŷ a gardd Craig-y-Parc yn nodwedd unigryw ym Mhentyrch ac yn cyfrannu'n sylweddol at gyfoeth pensaernïol yr ardal, mae'r rhan fwyaf ohono o'r golwg. O ganlyniad, dim ond y porthdy rhestredig sy'n adeilad tirnod.









- Tai yng ngogledd yr Ardal Gadwraeth
- Tir amaethyddol a ddefnyddir i gadw ceffylau
- Porthdy Craig-y-Parc
- Rhan o ardd a theras Craig-y-Parc

## Nodweddion Tirwedd

Rhan allweddol o gymeriad yr Ardal Gadwraeth yw'r nodweddion gwledig cryf gan gynnwys y caeau, y cloddiau a'r coetiroedd. I gydnabod hyn, roedd y copi a adneuwyd o Gynllun Datblygu Unedol Caerdydd yn cynnig yr holl ardal, ar wahân i'r tai preswyl yn y gogledd, fel Ardal Tirwedd Arbennig. Mae'r caeau naill ai'n cael eu defnyddio ar gyfer ceffylau neu fel tir pori, ac mae'r coetiroedd yn Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur, gyda choetir hynafol lled-naturiol. Mae un o'r coetiroedd yn lleoliad pwysig i Graig-y-Parc. Mae dau Orchymyn Cadw Coed yn bodoli, gyda'r ddau yn diogelu coeden binwydd yn nhir Pentwyn. Mae'r cloddiau sy'n creu ffiniau rhwng y caeau a'r ffordd yn rhai di-dor (ac eithrio am y pwyntiau mynediad). Maent mewn cyflwr da ac yn rhywogaethau cynhenid. Maint cymharol fychan sydd i'r tir caeedig rhwng y cloddiau, ac mae'r coed sydd wedi'u gwasgaru yma a thraw yn eu gwneud yn rhan bwysig o'r olygfa wledig.









- Caeau â chloddiau mewn cyflwr da
- Wal gerrig draddodiadol
- Waliau cerrig yng Nghraig-y-Parc â thyllau nythu i golomennod
- Trawstiau yn logia Craig-y-Parc

## 3.3 Hierarchaeth Mannau Cyhoeddus a Phreifat

Mae nifer o fannau yn yr Ardal Gadwraeth sydd ar agor i'r cyhoedd. Mae'r rhain yn cynnwys sawl cae ble mae llwybrau hawliau tramwy cyhoeddus i'w cael, yn ogystal â ffordd. Mae gan y mannau hyn ffiniau amlwg (waliau, cloddiau, a ffensys post a gwifrau).

Mae nifer o'r lleiniau ymyl ar ochr y ffordd yn rhai preifat. Mae'r rhain yn cael eu cadw mewn cyflwr da ac yn cyfrannu at yr amwynder gweledol.

Yn gyffredinol, ceir diffiniad clir rhwng y mannau cyhoeddus a phreifat, drwy ffiniau amlwg fel cloddiau a waliau carreg. Tir preifat yw'r rhan helaethaf o'r ardal.

Mae'r llwybrau hawliau tramwy cyhoeddus a'r priffyrdd cyhoeddus eraill wedi'u harwyddo'n dda, sy'n gwneud yr ardal yn hwylus ac yn rhoi cysylltiadau i ardaloedd eraill. Ar adeg yr arolwg, roedd dau o'r hawliau tramwy cyhoeddus yn fwdlyd iawn, ond yn gyffredinol mae'r ardal yn ymddangos yn un ddiogel i unigolion.

## 3.4 Deunyddiau Lleol neu Anarferol o Ansawdd Uchel yn y Treflun

### Adeiladau

IYn Ardal Gadwraeth Craig-y-Parc mae oedrannau a steiliau gwahanol yr adeiladau'n golygu bod amrywiaeth o ddeunyddiau'n bresennol.

Mae amrywiaeth o ddeunyddiau i'w cael yn ysgol/cartref Craig-y-Parc ei hun. Mae'r tŷ wedi'i adeiladu o dywodfaen lleol gyda naddiadau o galchfaen a tho teils cerrig. Mae'r logia o gerrig llanw, gyda tho teils cerrig; mae teras, waliau a grisiau'r ardd hefyd o gerrig llanw gyda chopin cerrig, tra bo'r porthdy ar y cyfan o dywodfaen coch a llechi, gyda simneiau cerrig llwyd. Mae gwaith haearn addurnedig hefyd wedi'i ddefnyddio ar gyfer gatiau, llusernau ac ati.

Mae addasiadau a newidiadau wedi'u gwneud i Craig-y-Parc, gyda llawer yn defnyddio deunyddiau modern sy'n wahanol i rai'r adeilad gwreiddiol. Mae angen ystyried effeithiau cyffredinol yr addasiadau hyn wrth wneud ceisiadau

yn y dyfodol i addasu/ehangu Craig-y-Parc, er mwyn sicrhau bod undod yr adeilad yn cael ei gadw.

Mae'n bwysig hefyd rhoi ystyriaeth i'r defnydd o ddeunyddiau traddodiadol yn ogystal â steiliau a graddfeydd adeiladu traddodiadol neu leol. Mae bythynnod 'Pentwyn' a 'Cotswold' yn nodedig yn hyn o beth gan fod ganddynt waliau cerrig a tho teils wedi'u plygu. Mae dau dŷ fferm a nifer o dai allan amaethyddol yn adlewyrchu natur amaethyddol yr ardal. Mae'r tai fferm yn cynnwys deunyddiau traddodiadol ar gyfer adeiladau o'r fath: mae un o gerrig, a'r llall o rendr llyfn wedi'i beintio, gyda tho llechi a siliau cerrig. Yn yr un modd, mae nifer o dai allan presennol a rhai sydd wedi'u haddasu i'w cael o gerrig traddodiadol, gyda haenau metel neu lechi ar y toeau.

Yn draddodiadol, ffenestri a drysau pren sydd ar yr adeiladau, yn adlewyrchu arddull yr eiddo dan sylw. Fodd bynnag, drwy'r holl ardal, mae ffenestri UPVC ar rai ohonynt ynghyd â ffenestri to. Nid yw'r rhain yn parchu oedran na chymeriad y tai hŷn. Yn yr un modd, mae cynllun a deunydd drysau llawer o'r adeiladau'n anaddas.

Yn draddodiadol, waliau cerrig, cloddiau neu gloddiau banc yw'r ffiniau i eiddo. Cloddiau yw ffiniau'r caeau ar y cyfan. Maent i gyd yn nodweddiadol o'r ardal ac mewn cyflwr cyffredinol da.

## Tir y Cyhoedd

Rhan bwysig o'r Ardal Gadwraeth yw'r ffordd sy'n rhedeg drwyddi. Mae'r deunyddiau yn nhir y cyhoedd yn gyffredinol yn agos at y ffordd, fel arwyddion cyfeirio a hyrwyddo, goleuadau a chyfarpar trydanol, blwch post, gât mochyn, camfeydd a mainc. Mae'r llawer o'r rhain yn defnyddio deunyddiau modern.

Wyneb tarmac sydd ar y darnau bychain o balmentydd a ffyrdd, gyda rhywfaint o gyrbau concrid. Mae'r tarmac lliw ar gyfer rheoli traffig yn nodedig, gan ei fod yn mynnu sylw ac yn effeithio ar ymddangosiad yr Ardal. Nid yw'r colofnau goleuo, y pyst sy'n diogelu'r lleiniau ymyl na'r arwyddion ar y cyfan yn cyd-fynd â chymeriad yr ardal. Fodd bynnag, mae graddfa a chynllun y blwch post a'r mynegbost yn ne'r Ardal Gadwraeth yn gweddu i'w lleoliad, ac felly hefyd y camfeydd a'r gât mochyn sy'n arwain at yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

## 3.5 Manylion Pensaernïol o Ansawdd Uchel

Mae'r adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth wedi'u hadeiladu ar adegau gwahanol ac at ddibenion gwahanol (yn bennaf, tai ac amaethyddiaeth). O ganlyniad, ceir steiliau adeiladu amrywiol a manylion pensaernïol gwahanol yn yr ardal. Tra bo'r holl adeiladau'n unigol eu cynllun, gan adlewyrchu twf naturiol yr ardal, nid yw'r manylion pensaernïol o ansawdd uchel ym mhob un.

Pan gafodd ei adeiladu, roedd Craig-y-Parc yn ddatganiad o statws a chyfoeth, yn ogystal â chartref. Mae manylion pensaernïol y tŷ, yr adeiladau cysylltiedig a'r ardd yn adlewyrchu hyn. Wedi'u cynllunio mewn steil Celf a Chrefft, mae gan y tŷ nodweddion fel bargodion wedi'u plygu, to teils carreg, simneiau hir a thal, colofnau, colofnresi a ffenestri gyda chwareli niferus. Mae gan y logia do teils carreg, colofnau a thrawstiau amlwg, ac mae waliau'r 'ardd' yn cynnwys copin carreg, tyllau nythu i golomennod a phileri sgwâr gyda chopin carreg nadd a llusernau metel. Mae gan deras yr ardd hefyd gopin carreg a cholofnresi, gyda grisiau isaf y teras yn ymledu'n atyniadol. Mae gan y porthdy do talcennog gyda llechi bychain, bargodion sy'n crogi dros y waliau, simneiau cerrig mawr, ffenestri gyda chwareli niferus a gatiau haearn addurnedig. Mae ansawdd uchel y manylion pensaernïol hyn wedi arwain at restru'r tŷ, y porthdy, y logia, y waliau,









- Bwthyn Pentwyn
- Tai allan amaethyddol
- Blwch post a mynegbost yn ne'r Ardal Gadwraeth
- 1 allan o'r 5 adeilad mwyaf gogleddol, gyda fframiau pren ffug-Duduraidd

pileri'r gatiau, a theras a grisiau'r ardd.

Ysgol yw Craig-y-Parc heddiw. O ganlyniad, mae addasiadau wedi'u gwneud i'r adeiladau, a chynllun llawer o'r rheiny'n fodern. Mae angen ystyried effeithiau cyffredinol yr addasiadau hyn wrth wneud ceisiadau yn y dyfodol i addasu/ ehangu Craig-y-Parc, er mwyn sicrhau bod undod yr adeilad yn cael ei gadw.

O ran pensaernïaeth mannau eraill yn yr Ardal Gadwraeth, nid oes unrhyw steiliau neu batrwm pensaernïol penodol o ganlyniad i dwf naturiol y datblygiadau. Fodd bynnag, mae rhai o'r elfennau wedi creu adeiladau 'tebyg' neu 'nodweddiadol' sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at yr Ardal Gadwraeth. Yn benodol, yr un cyfuniad o ddeunyddiau, graddfa a steil bensaernïol sydd ar y pum eiddo mwyaf gogleddol. Tra nad yw'r deunyddiau'n anghyffredin, mae'r defnydd ohonynt yn bwysig i greu grŵp sy'n rhan atyniadol o'r Ardal Gadwraeth. Mae gan yr adeiladau hyn doeau o siâp diddorol (gan gynnwys talcenni a thalcenni maen), ac arnynt deils to coch/brown bach a waliau rendr garw wedi'u peintio. Mae gan y waliau hyn yn aml fanylion fel fframiau pren Tuduraidd ac estyniadau fel portshys a chorbelau.

Mae bythynnod 'Pentwyn' a 'Cotswold' yn adlewyrchu tŷ Craig-y-Parc. Fel tŷ Craig-y-Parc, mae gan y bythynnod hyn do teils carreg gyda bargodion atyniadol wedi'u plygu. Ond fel bythynnod traddodiadol, cymharol fychan ydynt o ran graddfa a syml o ran cynllun. Wedi'u hadeiladu o garreg, mae ganddynt nodweddion fel siliau carreg, drysau pren a simneiau cerrig byr gyda photiau. Fodd bynnag, maent wedi'u haddasu'n sylweddol drwy osod ffenestri to a ffenestri dormer.

O ran adeiladau amaethyddol, yn gyffredinol mae'r nodweddion pensaernïol traddodiadol o hyd i'w gweld, er bod rhai ohonynt wedi'u haddasu. Er enghraifft, mae siâp hirgul gwreiddiol y ddau dŷ fferm gynt o hyd yn amlwg, ac felly hefyd y to llechi traddodiadol ar ongl o 45 gradd. Mae'r un peth yn wir am fanylion y simneiau, y siliau ffenestr cerrig a'r waliau o gerrig neu rendr wedi'i beintio. Mae symlrwydd yr adeiladau hyn yn rhan o'u cymeriad a'u pwrpas. Mae tai allan amaethyddol hefyd yn gymharol syml o ran eu manylion pensaernïol: yn gyffredinol, adeiladau un llawr hirgul, yn ymarferol iawn eu cynllun gydag agoriadau bychain ar gyfer ffenestri ac agoriadau mwy ar gyfer peiriannau/certi. Yn draddodiadol, mae'r drysau a fframiau'r ffenestri o bren. Tra bo rhai o'r tai allan yn ymddangos yn adfeiliedig, maent yn nodweddion gwledig pwysig.

O ran adeiladau diwedd yr ugeinfed ganrif, yn gyffredinol nid ydynt yn adlewyrchu manylion pensaernïol yr adeiladau amaethyddol na'r bythynnod traddodiadol, na'r grŵp o bum tŷ atyniadol yn yr ardal fwyaf gogleddol. Tra bo un adeilad yn ceisio adlewyrchu hen adeilad, gyda gwaith cerrig a llechi, mae ganddo hefyd amrywiaeth o fanylion pensaernïol sy'n nodweddiadol o dai yn yr ardal fel to ar ongl lai na 45 gradd, crib addurnol, estyll tywydd addurnol, conglfeini brics coch, addurniadau o amgylch y ffenestr a rheiliau addurnol. Mae'r stablau anawdurdodedig yn tynnu sylw o ganlyniad i'w lleoliad ar ochr y ffordd, eu siâp, eu deunyddiau a'u cynllun. Nid yw'r adeiladau modern hyn, sy'n ymdebygu i siediau, yn cyd-fynd â chymeriad yr ardal o gwbl.

Mae adeiladau wedi'u haddasu drwy'r Ardal Gadwraeth. Mae ansawdd yr addasiadau'n amrywio, gyda rhai'n cydweddu'n dda ond eraill yn fwy amlwg, fel ffenestri to mawr ar doeau sy'n wynebu'r ffordd a ffenestri dormer sydd wedi'u cynllunio'n wael. Yn gyffredinol, mae'r tai preswyl mewn cyflwr da.

Mae'r ffiniau traddodiadol yn yr Ardal Gadwraeth o waliau cerrig, cloddiau a chloddiau banc, sy'n cyd-fynd â chymeriad yr ardal.









- Bythynnod Pentwyn a Cotswold
- Hen sgubor â nodweddion adeilad amaethyddol traddodiadol
- Nid yw'r manylion addurniadol yn nodweddiadol o'r ardal
- Ffenestri to mawr ar doeau sy'n wynebu'r ffordd

# 3.6 Tirlunio Caled a Meddal o Ansawdd Uchel

## Tirlunio Caled

Yn gyffredinol, mae'r deunyddiau yn nhir y cyhoedd yn rhai modern. Wyneb tarmac sydd yn ardal y palmant a'r ffordd, gyda rhywfaint o darmac lliw y tu allan i 'Pentwyn' fel rhan o gamau rheoli traffig.

Mae'r tarmac lliw hwn yn amlwg iawn, er ei fod wedi gwisgo, ac mae'n anniben. Mae ei bresenoldeb a'i gyflwr yn effeithio ar yr ardal.

Mae dodrefn stryd fel colofnau goleuo ac arwyddion i'r ysgol hefyd yn defnyddio deunyddiau modern, ac wedi'u cynllunio mewn arddull fodern. Yn gyffredinol, nid ydynt yn cyd-fynd â chymeriad yr ardal. O ganlyniad, mae cyfleoedd i wella ansawdd tir y cyhoedd drwy ddewis cynlluniau a deunyddiau mwy addas. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried mai tir y cyhoedd yw un o rannau mwyaf amlwg ac agored yr Ardal Gadwraeth. Fodd bynnag, mae cynllun y camfeydd, y gât fochyn, yr arwyddion cyfeirio a'r blwch post yn ne'r Ardal Gadwraeth yn addas i gymeriad yr ardal.

## Tirlunio Meddal

Nodwedd unigryw yn yr Ardal Gadwraeth yw'r lefel uchel o 'dirlunio meddal' fel y dangosir gan y llun o'r awyr. Mae hyn yn cynnwys caeau, coed aeddfed (yn unigol ac yn grwpiau o goetir), cloddiau, lleiniau ymyl a gerddi preifat gyda lawntiau a phlanhigion.

Mae'r caeau yn cael eu defnyddio ar gyfer ceffylau ac fel tir pori, ac mae golygfeydd o dir pori defaid i'w cael ymhellach i ffwrdd. Mae maint canolig y caeau yn creu clytwaith deniadol o gaeau, gyda ffiniau afreolaidd a rhwydwaith cryf o gloddiau.

Mae'r cloddiau sy'n rhannu'r caeau a'r ffordd mewn cyflwr da, ac yn rhywogaeth gynhenid. Maint cymharol fychan sydd i'r tir caeedig rhwng y cloddiau, ac mae'r coed sydd wedi'u gwasgaru yma a thraw yn eu gwneud yn rhan bwysig o'r olygfa wledig. Mae'r rhan fwyaf o'r cloddiau presennol i'w gweld ar gynllun 1878. Fodd bynnag, nodir bod rhai o'r cloddiau ger yr hawl tramwy cyhoeddus sy'n ffinio'r goedlan i'r dwyrain o'r Ardal Gadwraeth wedi cael eu hailosod gan bostyn a ffens wifrau.

Mae cloddiau'r gerddi mewn cyflwr da, er bod gan nifer ohonynt yr un rhywogaethau ag ardaloedd maestrefol. Mae'n bosibl gweld y gerddi os yw'r cloddiau a'r waliau ar ochr y ffordd yn rhai isel. Mae gan y gerddi blanhigion ac maent yn bwysig er mwyn cynnal amgylchedd gwledig ac amgylchedd nad yw'n drefol. Mae lleiniau ymyl ar ochr y ffordd yn nodweddiadol o bentrefi ac yn lleihau effaith datblygiadau.

Mae coetiroedd i'w cael i'r dwyrain o'r Ardal Gadwraeth ac o amgylch Craig-y-Parc, ac yn rhan bwysig o natur Craig-y-Parc. Mae'r ddwy ardal yn Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur.











- Tarmac lliw, sy'n amharu ar yr ardal
- Caeau, cloddiau a choed sy'n rhan ganolog o'r cymeriad gwledig
- Clawdd gardd a banc clawdd
- Gerddi a lleiniau ymyl, sy'n cyfrannu at yr amgylchedd gwledig


# Map Treflun o Ardal Gadwraeth Craig-y-Parc




Yn seiliedig ar fapiau'r Arolwg Ordnans gyda Chaniatâd Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi. © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhyrchu yn torri hawlfraint y Goron a gallai arwain at erlyniad neu achos sifil. Cyngor Sir Caerdydd. LA 09005L

- Ffin y Ardal Gadwraeth
- Adeiladau Rhestredig yng Nghraig - y-Parc, hefd yn barc a gardd hanesyddol
- Coedwig a Safle Pwysig o ran Cadwraeth Natur
- Cloddiau ac Ymylon
- Grwp nodedig o bump eiddo preswyl
- Tai Fferm blaenorol ac Ysgubor a dau Fwthyn
- Caeau
- Tai allan amaethyddol
- Ardal Drefol
- Hawl Dramwy Gyhoeddus
- Waliau Cerrig
- Golygfeydd Panoramig
- Tirnod

# Llun o'r Awyr o Ardal Gadwraeth Craig-y-Parc



# 4 ardaloedd a chymeriad

Gellir rhannu'r Ardal Gadwraeth yn dair rhan: ardal breswyl; caeau a choetir; ac ysgol Craig-y-Parc. Mae gan bob rhan gymeriad gwahanol, sy'n codi materion ac yn creu cyfleoedd gwahanol. Er hyn, mae'r ffordd, materion traffig a'r nodweddion ffiniol yn berthnasol i'r tair rhan.

## Ardal 1: Preswyl

Tai sengl sylweddol sydd yn yr ardal hon, wedi'u cynllunio'n unigol ac o natur, oedran, steiliau a deunyddiau gwahanol. Mae'n cynnwys dau hen ffermdy a thri eiddo ar ddeg o'r ugeinfed ganrif. Yn gyffredinol, mae plotiau'r tai o siapiau afreolaidd ac yn gymharol fawr, gyda ffiniau o gloddiau a waliau cerrig sydd mewn cyflwr da.

## Ardal 2: Caeau a Choetir

Tir pori, coetir collddail a thir ceffylau (ar adeg yr arolwg) oedd yn nodweddu'r ardal hon. Mae'r tir hwn yn gymorth i ddiffinio cymeriad gwledig yr ardal ynghyd â ffin 'drefol' y pentref. Mae Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n rhedeg trwy'r caeau ac yn ffinio â'r coetir yn llwybrau mynediad/hamdden pwysig. Mae tai allan amaethyddol, mewn gwahanol gyflwr, hefyd yn cyfrannu at gymeriad gwledig yr ardal.

## Ardal 3: Craig-y-Parc

Adeilad Rhestredig a Gardd Hanesyddol yw Craig-y-Parc sydd ag ansawdd a rhinweddau pensaernïol pwysig. Mae'n nodwedd bwysig ym Mhentyrch, wedi'i leoli yng nghanol coetir.

# 5 materion perthnasol a chyfleoedd

Mae nifer o faterion a chyfleoedd posibl yn gysylltiedig â'r Ardal Gadwraeth.

## 5.1 Materion

### Adeiladau Nodweddiadol

Nid oes unrhyw steil archeolegol arbennig yn perthyn i'r Ardal Gadwraeth, gyda chynlluniau gwahanol i'r adeiladau a'r adeileddau. Er hyn, mae'n bwysig bod yr adeiladau sy'n cyfrannu at gymeriad yr ardal yn ôl y gwerthusiad, ynghyd â'u nodweddion arbennig, yn cael eu cynnal er mwyn cadw cymeriad yr Ardal Gadwraeth.

### Addasu Adeiladau

Yn yr Ardal Gadwraeth, mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau wedi'u haddasu mewn rhyw ffordd, yn amrywio o ailosod ffenestri a drysau i osod ffenestri to, ffenestri dormer ac estyniadau. Ar brydiau, mae'r rhain wedi defnyddio cynlluniau a deunyddiau sy'n anghydnaws â natur wreiddiol yr adeilad. Yn yr achosion hyn, gellir addasu ymddangosiad adeiladau unigol. O ganlyniad, dylid cynllunio unrhyw addasiadau i adeiladau, yn enwedig y rheiny sydd yng ngolwg y cyhoedd, i adlewyrchu a pharchu graddfa, deunyddiau, steil bensaernïol a manylion yr adeilad sy'n cael ei addasu, er mwyn cadw cymeriad yr Ardal Gadwraeth.

### Tai Allan Amaethyddol

Mae'r tai allan amaethyddol yn rhan o gymeriad gwledig yr ardal. Mae rhai o gerrig, ac eraill wedi'u hailgodi ar safle'r tai allan sydd i'w gweld ar fap 1878. Mae'r adeiladau hyn yn cyfrannu at hanes a chymeriad yr Ardal Gadwraeth, ac o ganlyniad byddai'n ddoeth eu cadw.

### Stablau

Mae'r stablau sydd wedi'u codi heb awdurdod yng nghanol yr Ardal Gadwraeth mewn lleoliad gwael ac yn tynnu sylw. Mae'r mater o'u hawdurdodi yn cael sylw ar hyn o bryd.

### Ffiniau

Mae ffiniau o gloddiau a waliau cerrig yn nodwedd bwysig yn yr Ardal Gadwraeth. Maent yn elfen amlwg iawn drwy'r strydoedd ac yn bwysig i greu ymdeimlad caeedig i'r Ardal Gadwraeth. Mae'n hanfodol parhau i'w cynnal a'u cadw.

### Cynnal a chadw

Gall gwaith cynnal a chadw annigonol arwain at golli adeiladau, adeileddau a nodweddion sy'n cyfrannu ar yr hunaniaeth a'r cymeriad lleol. Mae'n bwysig bod adeiladau, adeileddau a nodweddion sy'n cyfrannu at gymeriad yr Ardal Gadwraeth yn cael eu cynnal a'u cadw a'u hatgyweirio'n briodol.

## Pwysau i Ddatblygu

Yn gyffredinol, mae'r gerddi ym mhob eiddo sydd o fewn ffin yr anheddiad yn rhai sylweddol, gyda dim llawer o ddatblygu ynddynt. At hynny, mae'r gerddi'n dueddol o gynnwys planhigion yn hytrach nag wyneb caled. Gyda'i gilydd, mae ffin yr anheddiad, y lefel isel o adeiladu a nodweddion y gerddi yn cyfrannu at gymeriad gwledig yr ardal. Byddai ehangu ffin yr anheddiad, adeiladu rhwng eiddo neu golli'r gerddi a'u planhigion i wyneb caled yn amharu ar gymeriad gwledig yr Ardal Gadwraeth.

## Lleiniau Ymyl a Chloddiau Banc ger y Ffordd

Mae lleiniau ymyl ar ochr y ffordd yn nodwedd mewn pentrefi gwledig ac yn cyfrannu at gymeriad yr ardal. O ganlyniad, dylid eu cadw. I atal cerbydau rhag erydu'r lleiniau ymyl hyn, mae nifer o gamau wedi'u cymryd i'w diogelu. Fodd bynnag, nid yw cynllun y rhain bob amser yn cyd-fynd â chymeriad yr ardal, yn arbennig bolardiau concrid. Mae gwelyau plannu uchel wedi'u gosod yn lle lleiniau ymyl mewn rhai mannau. Pan fydd blodau wedi'u plannu yn y rhain, gallant fod yn atyniadol, ond fel arall gallant amharu ar yr ardal. Mae rhai lleiniau ymyl sydd â chloddiau hefyd yn dechrau cael eu herydu gan gerbydau. Mae cyfleoedd ar gael felly i nodi camau diogelu addas ar gyfer lleiniau ymyl a chloddiau banc, er mwyn eu cadw.

## Y Briffordd a Rheoli Traffig

Y lôn gul a'r ardal fechan o balmant yw un o rannau amlycaf yr Ardal Gadwraeth ac o ganlyniad mae'n bwysig iawn rhoi sylw iddynt. Gyda tharmac ar y wyneb, a rhywfaint o gyrbau concrid, maent yn addas i'w pwrpas modern. Ond mae ardal o darmac lliw ar y ffordd hefyd, fel rhan o gamau rheoli traffig. Mae'r tarmac lliw hwn yn tynnu sylw yn yr ardal, ond ei bwrpas yw arafu cyflymder cerbydau, sy'n fater perthnasol o ystyried culni'r ffordd a'r nifer o yrwyr, cerddwyr a phobl sy'n marchogaeth ceffylau arni. Mae cyfle fodd bynnag i ddefnyddio lliw neu ddeunydd gwahanol ar y tarmac i nodi'r newid yn y cyfyngiad cyflymder yn y man hwn. O ran rheoli traffig, mater perthnasol arall yw sicrhau bod arwyddion traffig yn ddarllenadwy ac yn eglur i yrwyr o ran eu lleoliad.

## Parcio

Sylwir bod cerbydau'n parcio y tu allan i'r ysgol ar Heol-y-Parc Road, gyda nifer y cerbydau yn amrywio o ddydd i ddydd ac yn ystod y dydd. Mae'r ceir hyn yn hynod o amlwg o rai rhannau o'r Ardal Gadwraeth ac yn amharu ar gymeriad gwledig yr ardal.

## Dodrefn Stryd ac Arwyddion Hyrwyddo

Cynllun a deunyddiau modern sydd i'r goleuadau stryd a'r arwyddion hawliau tramwy cyhoeddus, fel y bolardiau sy'n diogelu'r lleiniau ymyl. Nid yw un o'r rhain yn cyd-fynd â chymeriad yr ardal. O ganlyniad, mae cyfleoedd ar gael i wella ansawdd tir y cyhoedd drwy ddewis deunyddiau a chynlluniau mwy addas ar gyfer dodrefn stryd. Mae'r arwyddion i'r ysgol yn y gyffordd i'r de o'r Ardal Gadwraeth yn wael yn esthetig. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried eu lleoliad ger cyfarpar trydanol nad yw'n atyniadol iawn.

## Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Roedd dau lwybr hawliau tramwy cyhoeddus yn fwdlyd iawn pan ymwelwyd â'r safle. Fodd bynnag, roedd modd eu cerdded ac nid oedd gordyfiant yn amharu arnynt, er efallai bod hyn yn fwy o broblem yn y tymor tyfu. Mae parhau i gynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus, camfeydd, y gât fochyn a'r arwyddion yn bwysig er mwyn sicrhau'r mynediad a'r defnydd gorau o lwybrau hamdden.

## Tirlunio Meddal

Nodwedd arbennig yn yr Ardal Gadwraeth yw'r lefel uchel o dirlunio meddal gan gynnwys cloddiau, lleiniau ymyl, gerddi, caeau, coed a choetir. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn cael eu rheoli'n dda ac yn nodweddion pwysig sydd angen eu cadw. Pan fydd coed neu gloddiau'n marw, dylid gosod rhywogaethau addas yn eu lle i ddiogelu cymeriad yr Ardal Gadwraeth. Mae cadw lleiniau ymyl a gerddi planhigion hefyd yn bwysig er mwyn diogelu cymeriad yr ardal.

# 5.2 Cyfleoedd i Ddiogelu a Gwella

1. Annog perchnogion eiddo i gynnal a chadw adeiladau/adeileddau sy'n cyfrannu at gymeriad yr ardal a chadw/ailosod eu nodweddion arbennig.

2. Pan fydd ceisiadau i addasu eiddo, annog addasiadau sy'n dangos parch ac yn adlewyrchu graddfa, deunyddiau, steil bensaernïol a manylion yr adeilad sy'n cael ei addasu.

3. Annog perchnogion eiddo i gadw/ailosod a chynnal nodweddion ffiniol traddodiadol.

4. Annog cadw ffin bresennol yr anheddiad a'r lefel isel o adeiladau er mwyn cynnal cymeriad gwledig yr ardal.

5. Annog cynnal a chadw lleiniau ymyl a chloddiau banc, a'u diogelu ble mae galw, gan roi ystyriaeth i gynllun a deunyddiau unrhyw strwythurau diogelu. Hefyd, annog cynnal a chadw gwelyau plannu ar ochr y ffordd, ble maent i'w cael.

6. Annog cynnal a chadw tir y cyhoedd ac annog ymddangosiad gwell, yn benodol drwy ddefnyddio dodrefn stryd ac arwyddion hyrwyddo gyda chynlluniau a deunyddiau addas.

7. Adolygu'r camau rheoli traffig er mwyn gwella'u cynllun mewn perthynas â'r Ardal Gadwraeth, gan gynnal a gwella diogelwch holl ddefnyddwyr y ffordd.

8. Galluogi pobl i barhau i ddefnyddio'r hawliau tramwy cyhoeddus, a pharhau i gynnal a chadw a gwella'r camfeydd, y giât fochyn, y mynegbyst a'r llwybrau ble mae hynny'n briodol neu pan fydd galw.

9. Annog cynnal a chadw nodweddion tirlunio meddal sy'n cyfrannu at gymeriad gwledig yr ardal, gan gynnwys gerddi sydd â phlanhigion, lleiniau ymyl, caeau, coed a chloddiau. Pan fydd nodweddion fel cloddiau a choed yn marw, annog defnyddio rhywogaethau addas yn eu lle.

# 6 fframwaith ar gyfer gweithredu

## 6.1 Cefndir

Mae adrannau blaenorol yn disgrifio'r nodweddion a'r ansawdd sy'n creu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth, ac yn nodi'r potensial ar gyfer gwella. Mae'r adran ganlynol yn disgrifio ffyrdd y gellid defnyddio'r ddogfen er budd yr Ardal Gadwraeth.

## 6.2 Prif Bwrpas y Gwerthusiad

**Unwaith y caiff ei fabwysiadu, bydd y gwerthusiad a'r canllawiau'n cael eu defnyddio i wneud y canlynol:**

- Diffinio cynllun gwella i arwain y datblygiad o'r ardal.
- Bod yn sail i asesu ceisiadau cynllunio yn unol â'r Cynllun Datblygu Unedol (a adneuwyd).
- Gosod blaenoriaethau ar gyfer rheoli tir y cyhoedd yn y dyfodol.
- Rhoi canllawiau ar ansawdd arbennig yr ardal a sut i'w diogelu.

## 6.3 Manteision y Gwerthusiad

**Rhagwelir y bydd y gwerthusiad a fabwysiedir yn dod â'r manteision canlynol i'r ardal.**

- Diogelu a gwella cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.
- Mwy o ymwybyddiaeth gyhoeddus a gwerthfawrogiad o gymeriad a hanes arbennig yr ardal.
- Rhoi canllawiau i berchnogion eiddo a phobl sy'n byw yn yr Ardal Gadwraeth.
- Rhoi cymorth i berchnogion eiddo lleol, grwpiau, mentrau ac arweinwyr cymunedol yn eu hymdrechion i ddiogelu a gwella'r Ardal Gadwraeth a'i chadw'n ardal ddeniadol i fyw ynddi.
- Annog a chynghori ynghylch atgyweiriadau a gwelliannau cywir.
- Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau newydd yn parchu cymeriad yr ardal ac yn gweddu i'w ffurf a'i chynllun presennol.
- Creu cynllun gwella i arwain mwynhad o'r ardal yn y dyfodol.
- Sicrhau bod gwelliannau i dir y cyhoedd yn cael eu cyflawni gan barchu cymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth.

## 6.4 Pwysau i Newid

**Ceir pwysau a galw o bob math sy'n gallu amharu ar y gwaith o ddiogelu a gwella Ardaloedd Cadwraeth. Maent yn cynnwys:**

- Pwysau i adeiladu, addasu, ehangu a dymchwel adeiladau.
- Pwysau i newid adeiladau a thai er mwyn cyflawni amcanion eraill, er enghraifft, gwell effeithlonrwydd ynni a diogelwch tai.
- Colli elfennau o dirlunio meddal a chaled gan gynnwys waliau ffiniol, cloddiau, gerddi a choed.
- Lefelau traffig parhaol/cynyddol a thagfeydd.
- Galw am lefydd parcio ar stryd, a hynny'n amharu ar y traffig.
- Cynllun a lleoliad camau rheoli traffig, dodrefn stryd ac arwyddion hyrwyddo.
- Gwaith cynnal a chadw annigonol neu anaddas ar dai, nodweddion a llwybrau mynediad.

## 6.5 Cydweithio i Sicrhau Canlyniadau

### Perchnogion Eiddo a Datblygwyr

Y ffordd fwyaf effeithiol o wella Ardal Gadwraeth yw sicrhau bod y rheiny sy'n cynllunio gwaith neu ddatblygiadau yn deall cymeriad yr ardal. Mae Adran 4 y ddogfen hon yn amlinellu'r cymeriad hwnnw, a cheir canllawiau penodol yn Atodiadau 1 a 2 sy'n rhoi cyngor am ddiogelu adeiladau a nodweddion eraill mewn cynlluniau datblygu. Ceir cyngor hefyd i'r rheiny sy'n ystyried gwneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

### Y Cyngor

Er bod Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Cynllunio Lleol i baratoi cynllun ar gyfer gwella Ardal Gadwraeth, nid oes cyllideb na dull penodol ar gael i gyflawni hyn ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu, er mwyn sicrhau gwelliannau, bod yn rhaid gweithio ar y cyd â Gwasanaethau eraill yn y Cyngor neu mewn partneriaeth â'r gymuned a chyrff cyhoeddus eraill.

Drwy'r cynlluniau canlynol, gallai'r Cyngor fod yn allweddol wrth ddylanwadu ar welliannau a'u rhoi ar waith.

1. Mabwysiadu'r canllawiau a'r cyfleoedd i wella a nodir yn Atodiadau 1 a

2. Rheoli cyllidebau presennol y Cyngor yn effeithiol, er enghraifft o ran:
   - Atgyweirio tai
   - Cymorth grant i wella effeithlonrwydd ynni mewn tai
   - Gwella, atgyweirio ac ehangu llwybrau troed a ffyrdd
   - Gwaith adfer ar goed sy'n eiddo i'r Cyngor, a phlannu coed newydd ble mae galw
   - Cynlluniau adnewyddu cymdogaethau.

3. Hyrwyddo dealltwriaeth o arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol yr Ardal Gadwraeth, a hynny drwy'r Cyngor Cymuned, cyrff crefyddol, ysgolion, llyfrgelloedd a grwpiau cymunedol eraill.

## 7. Argymhellion

**Mae'r argymhellion canlynol yn crynhoi canfyddiadau'r gwerthusiad a'r camau gweithredu y gellir eu cymryd ar ôl ei fabwysiadu.**

**Dyma'r argymhellion:**

- Argymhellir cyhoeddi'r canllawiau yn Atodiadau 1 a 2 a'u dosbarthu i'r rheiny sy'n byw yn yr Ardal Gadwraeth neu sydd â diddordeb ynddi.
- Cadarnhau mai'r Gwerthusiad a'i argymhellion a'i flaenoriaethau gweithredu yw'r sylfaen ar gyfer mentrau corfforaethol yn yr Ardal Gadwraeth.
- Sicrhau bod y Gwerthusiad yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio yn unol ag Adran 72 y Ddeddf.
- Cyfathrebu'n well gyda'r Cyngor Cymuned, grwpiau lleol a thrigolion mewn partneriaeth â Grŵp Cynghori Ardaloedd Cadwraeth Gogledd-orllewin Caerdydd.
- Sicrhau bod y gwerthusiad ar gael i'w astudio yn y llyfrgelloedd a'r ysgolion lleol.
- Cytuno ar gynllun priodol ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw er mwyn sicrhau bod gwaith a gynhelir ar dir y cyhoedd yn gydnaws â chymeriad yr Ardal Gadwraeth.

## 8. Ymgynghoriad

**Mabwysiadwyd y ddogfen hon yn dilyn ymgynghori lleol.**

# Canllaw i'r Rheiny sy'n Cynllunio Datblygiadau yn yr Ardal Gadwraeth

Mae'r canllawiau hyn wedi'u paratoi ar gyfer y rheiny sy'n ystyried gwneud gwaith i atgyweirio neu addasu eu tai neu eu heiddo. Mae'r canllawiau wedi'u paratoi i barchu a gwella'r cymeriad a nodir yn y gwerthusiad hwn.

## Caniatâd

Rhestrwyd nifer o adeiladau/adeileddau yn yr Ardal Gadwraeth yn adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae'n rhaid cael Caniatâd Adeilad Rhestredig cyn addasu, ymestyn neu ddymchwel unrhyw ran o adeilad, y tu mewn neu'r tu allan iddo, mewn ffordd a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar ei ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

Ar gyfer adeiladau sydd heb gael eu rhestru, efallai y bydd angen caniatâd cynllunio cyn ymgymryd â rhai mathau o waith. Gall swyddog cynllunio gynghori ynghylch a oes angen caniatâd ar eich cynigion.

Efallai hefyd y bydd angen i chi gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu. Bydd modd i swyddog rheoli adeiladu roi cyngor i chi am y rheoliadau.

## Deunyddiau a Manylion Adeiladu

Wrth ystyried gwneud gwaith cynnal a chadw, ailosod neu waith adeiladu, dylid ceisio gwneud y canlynol:

- Atgyweirio'n hytrach nag ailosod ffenestri a drysau gwreiddiol
- Adeiladu waliau gyda deunyddiau sy'n cyd-fynd
- Defnyddio llechi neu deils to sy'n cyd-fynd

## Ffenestri a Drysau

Rhoi drysau ac yn enwedig ffenestri newydd yw un o'r problemau dylunio mwyaf anodd. Mae'r cyngor canlynol yn berthnasol i ddrysau a ffenestri mewn estyniadau ac wrth osod rhai newydd mewn adeiladau presennol.

- Dylid cadw'r drysau a'r ffenestri gwreiddiol os yw hynny'n bosibl.
- Dylai ffenestri newydd adlewyrchu'r steil a'r deunyddiau gwreiddiol a'r dulliau gwreiddiol o'u hagor, ynghyd â phatrwm gwreiddiol y ffenestr.
- Dylai drysau newydd adlewyrchu arddull a deunyddiau'r drysau a osodwyd yn wreiddiol, sef drysau pren syml ar y cyfan gydag ychydig o le i wydr yn unig.

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y dylech ystyried i ddechrau a oes angen gosod rhai newydd o gwbl.

Efallai y bydd yn bosibl atgyweirio ffenestri, a gall seiri coed crefftus wneud hynny'n rhwydd. Gall y Tîm Cadwraeth yn yr adran Cynllunio Strategol roi enwau gwneuthurwyr ffenestri pren arbenigol i chi. Gall y tîm hefyd roi cyngor am fanylion gwaith saer.

Mae rhagor o gyngor am atgyweirio ffenestri a gosod rhai newydd ar gael mewn cyhoeddiad ar wahân, 'Atgyweirio a ffenestri newydd mewn Ardaloedd Cadwraeth' sydd ar gael gan y Tîm Cadwraeth yn yr adran Cynllunio Strategol.

## Simneiau

Mae gan y rhan fwyaf o'r adeiladau yn yr Ardal Gadwraeth simneiau gyda lefelau amrywiol o fanylion. Dylid cynnal a chadw deunyddiau gwreiddiol y simneiau.

Mae simnai yn nodwedd weledol bwysig o adeilad ac yn cyfrannu tuag at effaith weledol grwpiau o adeiladau a'u hamlinell yn yr awyr. Os bydd simnai sy'n cyfrannu at gymeriad eiddo neu Ardal Gadwraeth yn anniogel a bod angen ei hatgyweirio, dylid ei hailadeiladu i'r un uchder a chynllun â'r gwreiddiol, hyd yn oed os nad yw'n cael ei defnyddio bellach.

Os yw adeilad wedi ei restru, bydd angen Caniatâd Adeilad Rhestredig a Chaniatâd Cynllunio i ddymchwel simnai. Os yw simneiau yn mynd yn segur mae hi'n bwysig sicrhau cymryd camau i gynnal y gwaith brics/cerrig a'r morter neu'r rendr, pa un bynnag sy'n briodol. Dylid cadw'r potiau simnai gwreiddiol os ydynt yn dal yn ddiogel a chadarn. Gall gard tywydd priodol awyru'r simnai a gwarchod rhag lleithder yn y frest.

## Ffenestri Dormer a Llofftydd To

Nid yw dormerau'n nodwedd draddodiadol yn yr Ardal Gadwraeth. Er mwyn caniatáu dormerau mewn lleoliad, rhaid iddynt beidio â chael effaith niweidiol ar gymeriad tŷ unigol neu Ardal Gadwraeth, a rhaid iddynt barchu graddfa'r tŷ, diogelu cymeriad ffurf bresennol y to, a diogelu ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.

Efallai y bydd ffenestri to traddodiadol yn dderbyniol mewn lleoliadau nad ydynt yn rhy amlwg, yn hytrach na dormer. Yn achos tai pâr, yn enwedig os ydynt yn gymesur, bydd angen gofalu na fydd ffenestr do yn achosi anghydbwysedd rhwng y ddau dŷ. Nid yw ffenestri to modern mewn fframiau dwfn, sy'n torri ar linell wyneb y to, yn addas.

## Deunydd y To

Dylid cadw deunydd gwreiddiol y to. Defnyddio deunyddiau wedi'u hadfer neu ddeunyddiau newydd sy'n cyd-fynd â'r gwreiddiol yw'r ffordd orau o ddiogelu cymeriad yr Ardal Gadwraeth. Wrth ail-doi, mae'n bwysig defnyddio deunydd o'r un maint ac ansawdd â'r gwreiddiol, a dilyn lled a phatrwm y cwrs.

Nid yw teils crib addurnol, terfyniadau nac estyll tywydd yn nodweddion gwreiddiol.

Dylai cyfarpar dŵr glaw gael cynlluniau a deunyddiau traddodiadol.

## Portshys a Chanopïau

Mae portshys yn nodwedd bwysig ar waliau tai a dylid parchu'r manylion a geir ynddynt o hyd. Dylai cynigion ar gyfer portshys a chanopïau newydd roi ystyriaeth i unrhyw linellau adeiladu gwreiddiol ynghyd â chynllun gwreiddiol yr eiddo neu'r gr p o adeiladau dan sylw.

## Gorffeniad/Gwaith Cerrig ar Waliau

Rendr a cherrig garw yw prif orffeniad y waliau yn yr Ardal Gadwraeth. Mae'n bwysig bod gwaith carreg yn cael ei atgyweirio a'i adnewyddu'n gywir. Mae hi'n hanfodol bod y garreg bresennol yn cael ei hailbwyntio mewn modd sy'n cyd-fynd â'r dull adeiladu gwreiddiol. Argymhellir defnyddio morter calch, gan fod sment trwm yn achosi problemau o ran cadw lleithder mewn waliau cerrig traddodiadol.

Dylid rhoi sylw i orffeniad allanol ar estyniadau. Mae rhagor o gyngor am hyn ar gael yn 'Estyniadau a Datblygiadau Newydd'.

## Dyfeisiadau Ynni Adnewyddadwy, Offer Cyfathrebu ac Offer Diogelwch

Gall gosod offer ychwanegol ar adeiladau, am ba bynnag reswm, gael effaith sylweddol ar gymeriad Ardal Gadwraeth. Os bydd yr offer hwnnw mewn lle anaddas, gall sawl achos gyda'i gilydd ddwysáu'r effaith a niweidio cymeriad yr Ardal Gadwraeth. Os oes angen caniatâd cynllunio, mae'n annhebygol y bydd offer o'r fath ar waliau ffrynt a waliau ochr amlwg yn dderbyniol. Mae waliau cefn neu dai allan yn aml yn lleoliadau mwy addas, cyn belled nad ydynt yn rhy amlwg nac yn niweidio cymeriad neu ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth. Os yw'r math hwn o offer wedi'i leoli mewn mannau anaddas ar hyn o bryd, dylid cael gwared arno pan fydd cyfle.

## Estyniadau a Datblygiadau Newydd

Boed y cynllun yn un traddodiadol neu fodern, er mwyn i ddatblygiadau newydd ac estyniadau i adeiladau presennol fod yn llwyddiannus mewn Ardal Gadwraeth, mae angen deall cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth.

Dylai estyniadau i adeiladau presennol a datblygiadau newydd yn yr Ardal Gadwraeth gadw neu wella cymeriad ac ymddangosiad yr Ardal Gadwraeth yn y ffyrdd canlynol:

- Parchu ansawdd nodedig y lle, a fydd yn golygu parhau i ddefnyddio'r graen trefol presennol.
- Cadw golygfeydd i mewn ac allan o'r Ardal Gadwraeth.
- Parchu defnydd presennol y tir.
- Atgyfnerthu hierarchaeth bresennol mannau cyhoeddus a phreifat.
- Defnyddio deunyddiau a manylion pensaernïol o ansawdd yr un mor uchel â'r rheiny sydd yn yr adeiladau presennol.

Mae materion cynllunio mwy cyffredinol i'w hystyried hefyd. Er enghraifft, mae angen rhoi sylw i effaith unrhyw ddatblygiadau newydd ar amwynderau cyfagos, yn benodol o ran datblygiadau uwch ar y llethr, colli golau a datblygiadau gormesol.

Am amlinelliad cyffredinol o'r egwyddorion dylunio, mae dogfen Canllawiau Cynllunio Atodol ynghylch Dylunio Tai ar gael i'w lwytho o www.caerdydd.gov.uk neu ffoniwch C2C ar 029 20872088.

Gan fod dylunio estyniadau llwyddiannus yn gofyn am wybodaeth am y math o adeilad dan sylw ac ymdriniaeth sensitif o'r maint a'r manylion, mae'n syniad da defnyddio pensaer sydd â gwybodaeth a phrofiad o'r math hwn o waith.

**Os yw adeilad yn un rhestredig, mae rheolau a gofynion pellach yn berthnasol sy'n gwrthwneud y cyngor hwn.**

**Gall estyniadau, newidiadau a datblygiadau newydd gael goblygiadau ar dirlunio meddal. Mae cyngor am hyn yn Atodiad 2.**

**Mae canllawiau ar dirlunio gan gynnwys, coed, parcio, gerddi, lleiniau ymyl, cloddiau, gatiau a ffiniau tir caeedig i'w cael yn Atodiad 2, 'Cyngor am Dirlunio a Choed'.**

# atodiad 2

## Cyngor am Goed a Thirlunio

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i faterion tirlunio gan gynnwys coed, parcio, gerddi, lleiniau ymyl, cloddiau, waliau a gatiau. Mae amryw o nodweddion tirlunio, fel coed, cloddiau, lleiniau ymyl, waliau a gerddi preifat i gyd yn cyfrannu at gymeriad arbennig yr Ardal Gadwraeth. Mae'r ystyriaethau perthnasol wedi'u nodi isod os ydych chi'n cynllunio gwaith sy'n ymwneud â'r nodweddion hyn.

### Coed

Mae coed mewn Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu diogelu. Rhaid gwneud cais ysgrifenedig am ganiatâd i wneud gwaith ar goed sy'n fwy na 7.5 centimedr (tua 3 modfedd) o ddiamedr, ar bwynt sydd 1.5 metr (tua 5 troedfedd) o uchder. Yn benodol, rhaid i chi roi 6 wythnos o rybudd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol o'ch bwriad i wneud y gwaith. Bydd yr Awdurdod yn caniatáu gwaith os bydd hynny o fudd i'r coed, a gall ganiatáu gwaith hefyd os bydd y manteision yn fwy na'r difrod i'r coed. Os nad yw'n rhoi caniatâd gall yr Awdurdod roi Gorchymyn Cadw Coed i atal y gwaith. Os na fydd yr Awdurdod yn ymateb o fewn chwe wythnos, gellir gwneud y gwaith beth bynnag. Mae'r cosbau y gall y llys eu rhoi am beidio â chyflwyno'r cais yn rhai difrifol - yr un mor ddifrifol â'r cosbau y gellir eu rhoi os byddai'r coed yn destun Gorchymyn Cadw Coed.

Nid yw gwaith yn golygu torri neu ddymchwel coeden yn unig, ond tocio neu ddifrodi gwreiddiau a changhennau hefyd, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Er enghraifft, dylid gwneud cais os ydych chi'n bwriadu addasu lefel y pridd ger coed, neu osod wynebau anhydraidd, fel llwybr newydd. Byddai'n drosedd hefyd difrodi coed drwy lygru eu hamgylchedd, er enghraifft rhoi chwynladdwr dail llydan ar lawnt gyfagos. Mae sawl eithriad rhag gorfod cael caniatâd, yn enwedig yn achos coed sy'n marw, wedi marw, neu'n beryglus. Fe'ch cynghorir, oni bai bod perygl y funud honno, i ffonio Swyddog Cadw Coed cyn tybio fod un o'r eithriadau hyn yn berthnasol. Fel rheol, bydd angen ailosod coed a ddymchwelir yn anghyfreithlon, neu a ddymchwelir heb fod eithriad yn berthnasol. Os yw'r gwaith dan sylw yn ymwneud â datblygiad sydd angen caniatâd cynllunio, dylech gynnwys y manylion yn y cais cynllunio. Drwy wneud hynny, ni fydd yn rhaid i chi wneud cais ar wahân o dan y rheoliadau sy'n diogelu coed – bydd yr holl faterion yn cael eu hystyried gyda'i gilydd.

Os oes gennych chi goeden fawr neu amlwg, fe'ch cynghorir yn gryf i gael cyngor gan feddyg coed o dro i dro ar gyfer ei rheoli yn y tymor hir. Bydd yr Awdurdod yn rhoi ystyriaeth deg i farn meddyg coed cymwysedig wrth ystyried ceisiadau. Rheolir coed ar briffyrdd, neu mewn parciau, gan Wasanaethau Parciau'r Cyngor, ac maent yn destun cyfundrefn reoli tymor hir a arolygir gan arbenigwr coed.

### Ailblannu Coed sy'n Dirywio

Mae hi'n bwysig ailblannu coed newydd os yw coed yn dirywio. Dylid plannu coed newydd wrth i'r hen goed gael eu dymchwel. Dylai'r holl goed fod yn rhywogaethau priodol. Dylai Swyddogion Cadw Coed allu'ch cynghori am rywogaethau priodol ar gyfer eich sefyllfa benodol chi.

### Gerddi

Mae gerddi ffrynt gyda glaswellt a chloddiau yn cyfrannu at naws arbennig yr Ardal Gadwraeth. Mae creu cyrtiau blaen o wyneb caled yn lleihau ardaloedd o laswellt, gwelyau blodau a chloddiau, ac yn aml yn arwain at golli gardd gyfan sy'n niweidio cymeriad yr ardal. Felly, ni ddylid creu cyrtiau blaen o'r fath.

## Parcio mewn Gerddi Ffrynt

Mae creu llefydd parcio o fewn talar tai unigol yn gallu arwain at golli gerddi ffrynt a nodweddion ar ffiniau'r gerddi fel cloddiau a waliau cerrig, sy'n nodweddion pwysig. Ni ddylid colli nodweddion o'r fath.

Os oes lle am garej, dylid ei ddylunio fel ei fod yn gweddu â'r t  ac mewn modd nad yw'n amharu ar yr ardal gyffredinol.

## Ffiniau Tir Caeëdig a Gatiau

Dylid ystyried ffiniau gerddi yn estyniad o'r adeilad y maent yn ei warchod. Maent yn rhoi diffiniad a chymeriad i olwg y stryd. Dylai unrhyw fath o waliau newydd geisio cyflawni'r un amcanion.

Mae cloddiau'n boblogaidd ar ffiniau yn yr Ardal Gadwraeth ac yn cyfrannu'n sylweddol at y tirlunio meddal. Wrth gynnal a chadw ac adfer cloddiau, mae hi'n bwysig plannu rhywogaethau sy'n cyd-fynd â chymeriad yr ardal. Efallai y bydd Swyddogion Cadw Coed yn gallu rhoi cyngor i chi am y rhywogaethau sy'n addas i'ch sefyllfa benodol chi. Wrth i gloddiau dyfu gall ffensys pyst a gwifrau neu rwyll fod yn ffordd dderbyniol o ddiogelu'r ardd.
Dylai waliau ffiniol adlewyrchu cymeriad yr ardal. Mae waliau cerrig traddodiadol o gerrig llanw amrywiol yn nodweddiadol o'r ardal, gyda llawer ohonynt yn waliau carreg sych. Dylai waliau o'r fath gael eu hatgyweirio a'u cynnal a'u cadw i sicrhau bod y gwaith carreg a'r morter yn parchu'r strwythur gwreiddiol. Mae hi'n hanfodol bod y garreg bresennol yn cael ei chynnal neu ei hailbwyntio mewn modd sy'n briodol â'r dull adeiladu gwreiddiol. Os oes angen ail-bwyntio, argymhellir defnyddio morter calch, gan fod sment trwm yn achosi problemau o ran cadw lleithder mewn waliau cerrig traddodiadol.

Yn gyffredinol, nid yw rheiliau'n ffurf draddodiadol ar gyfer ffiniau tir caeedig yn yr Ardal Gadwraeth.

Dylid osgoi defnyddio deunyddiau modern fel concrid a ffensys pren.

Os yw gatiau gerddi a drysau yn rhan o ffin dylent adlewyrchu maint a'r manylion/arddull pensaernïol a ddefnyddir ar y prif adeilad.

## Tirlunio

Gall estyniadau i eiddo a datblygiadau newydd gael goblygiadau ar dirlunio meddal. Er mwyn cadw cymeriad yr ardal, os gwneir unrhyw ddatblygiadau, dylid cadw elfennau allweddol y tirlunio meddal a gweithredu mesurau diogelu priodol er mwyn sicrhau eu bod yn goroesi yn ystod ac ar ôl gwneud y gwaith.

Mae rhai datblygiadau'n rhoi cyfleoedd ar gyfer tirlunio meddal a dylid annog hynny. Dylid dylunio cynlluniau tirlunio meddal mewn ffordd sy'n gweddu i gymeriad yr ardal.

## Lleiniau Ymyl

Mae lleiniau ymyl yn ychwanegu at gymeriad yr ardal a dylid eu cadw.

# atodiad 3







- Golygfeydd o'r Ardal Gadwraeth
- Elm Cottage ailddodiadau
- Tŷ Craig-y-Parc

## Cefndir

Dynodwyd Craig-y-Parc yn Ardal Gadwraeth ym mis Gorffennaf 1991. Fel y gwelir ar Fap 1, mae'n ardal siâp llinell yn ne Pentyrch, yn cynnwys ysgol Craig-y-Parc i'r de ac yn ymestyn tua'r gogledd i gynnwys sawl adeilad mawr unigol. Gellir rhannu'r ardal yn dair rhan: ardal breswyl yn y gogledd; ardal yn y canol o gaeau a choetir; ac ardal yn y de ble mae ysgol Craig-y-Parc. Mae ffordd wledig drwy'r ardal sy'n cysylltu'r cyfan.

## Adolygiad o'r Ffin

Tra bo rhywfaint o newid wedi bod yn yr Ardal Gadwraeth, prin ar y cyfan yw'r newid o ran ffurf a chymeriad ers ei dynodi. Y ddau newid amlycaf yn y gogledd yw adeiladau 'Pedolau' ac ailgodi adeilad yn lle Elm Cottage.

Mae canol yr Ardal Gadwraeth yn dal yn gaeau, coetir a thai allan amaethyddol. Defnyddir y ddau gae mwyaf ar gyfer ceffylau, a'r gweddill fel tir pori. Mae'r caeau, y coetiroedd a'r tai allan hyn yn bwysig i natur wledig yr Ardal Gadwraeth a'r pentref, ac maent yn gymorth i ddiffinio ffin yr ardal. Mae nifer o'r caeau hefyd wedi'u nodi gan Cadw fel rhai sy'n hanfodol i natur Craig-y-Parc.

Un newid diweddar yn y rhan ganolog hon yw codi stablau heb awdurdod. Mae'r rhain yn hollol amlwg, yn mynnu sylw, ac wedi'u lleoli ger y ffordd yng nghanol yr Ardal Gadwraeth.

Mae hen gartref Craig-y-Parc yn cael ei ddefnyddio gan SCOPE fel ysgol. Mae nifer o'r adeiladau a'r strwythurau yno yn rhai Rhestredig, ac mae'r gerddi wedi'u cofrestru fel Parc a Gardd Hanesyddol. Am hynny, mae rheolau caeth dros addasu yno. O'r herwydd dim ond newidiadau cyfyngedig a wnaed ers eu dynodi.

Roedd ardal yr arolwg yn cynnwys yr holl dir cyfagos ger ffin bresennol yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhan fwyaf o'r tir hwn yn dir amaethyddol neu'n goetir, gyda'r gweddill yn dir preswyl.

Datblygwyd y tir preswyl i'r gogledd o'r Ardal Gadwraeth yn niwedd yr ugeinfed ganrif. Mae cymeriad ac ymddangosiad yr eiddo hyn yn wahanol i'r rhai yn yr Ardal Gadwraeth, ac yn rhan o ardal ddatblygu ehangach sydd wedi'i chynllunio'n bwrpasol.

Mae'r rhes o dri eiddo i'r gogledd-orllewin o'r Ardal Gadwraeth, er ei bod yn ddeniadol ac yn arddangos rhai elfennau tebyg i'r grŵp o adeiladau mwyaf gogleddol yr Ardal Gadwraeth, yn rhy wahanol a phell o'r Ardal Gadwraeth i gyfrannu i'w chymeriad nac i ansawdd unigryw y lle.

Mae digon o gaeau a choetir o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth i gyfleu cymeriad a natur wledig y dreftadaeth adeiledig.


O ystyried natur a lefel y newid yn yr Ardal Gadwraeth a'r ffaith bod yr holl adeiladau, y caeau a'r coetir yn elfennau pwysig o'i chymeriad, yr unig newid yn ffin yr ardal yw'r un sy'n adlewyrchu ffiniau ffisegol diwygiedig i eiddo preswyl 'The Rise' a 'Bron y De' fel y dangosir ar Fap 2.

Ers ei dynodi yn 1991 mae tir ychwanegol bellach yn rhan o'r ddau eiddo hwn. Er bod hyn ynddo'i hun ddim yn rheswm dros eu cynnwys o fewn ffin yr Ardal Gadwraeth, mae'r ffin wreiddiol rhwng y ddau eiddo a'r tir ychwanegol un ai ddim yn bodoli rhagor, yn achos 'The Rise' neu, er yn weladwy o hyd yn 'Bron y De,' mae'r rhain yn ddi-nod yn ymyl y ffin fwy amlwg (a gweledol) ar ochr allanol y tir ychwanegol, sy'n cynnig parhad ffisegol a gweledol tua'r gorllewin o ffin ddiwygiedig 'The Rise' wrth edrych arni o'r tir pori cyfagos. O'r herwydd, yn yr achlysur hwn, ystyrir ei bod hi'n briodol ymestyn y ffin i gynnwys y tir ychwanegol.



• Tai o ddiwedd yr ugeinfed ganrif y tu allan i'r Ardal Gadwraeth

# Map 2
## Ffiniau'r Ardal Gadwraeth yn 1991 a 2007



# Glossary

**Celf a Chrefft** – symudiad o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg mewn pensaernïaeth, yn defnyddio crefftau adeiladu traddodiadol a deunyddiau lleol.

**Carreg nadd** – blociau sgwâr o garreg lefn.

**Colofnresi** – rhes o bileri byr, neu golofnresi, ynghyd â'r canllaw sy'n cael ei gefnogi ganddynt.

**Estyll Tywydd** – byrddau pren a osodir ar dalcen to, a all fod yn addurnedig.

**Rheoliadau Adeiladu** - rheolau cyfreithiol neu statudol sy'n galluogi cynghorau lleol i reoli ansawdd adeiladau. Eu bwriad yw sicrhau diogelwch ac iechyd y cyhoedd, a safonau adeiladu derbyniol gofynnol.

**Cadw** – adran amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Eu bwriad yw hyrwyddo cadwraeth a'r gwerthfawrogiad o amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae hyn yn cynnwys adeiladau hanesyddol, cofebion hynafol, parciau a gerddi hanesyddol, tirweddau ac archaeoleg danddwr.

**Copin** – gorchudd ar wal.

**Corbel** – rhywbeth sy'n pwyntio allan o wyneb y wal naill ai fel addurn neu i gefnogi trawst neu gydran strwythurol arall.

**Cwrs** – rhesi.

**Ardal Gadwraeth** – ardal o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol, y dylid cadw neu wella ei chymeriad neu ei hymddangosiad.

**Cyd-destun** – lleoliad adeilad neu ofod, ei safle yn ei amgylchedd naturiol neu'n ei gymdogaeth.

**Talar** - ardal o dir sy'n amgylchynu eiddo o fewn ei ffiniau.

**Ffenestri Dormer** – ffenest gyda tho wedi ei gosod ar do goleddol.

**Naddiadau** - gwaith carreg wedi ei gerfio o amgylch agoriadau neu unrhyw nodwedd.

**Bargodion** - y rhan o dan do llethr neu wal sy'n ymestyn drosodd.

**Terfyniad** – nodwedd addurniadol ar ddiwedd to.

**Ffurf** – siâp cyffredinol ardal gan gynnwys ei maint a'i graddfa.

**Talcen** – wal adeilad, y rhan uwch, siâp triongl.

**Lled** – trwch / dyfnder

**Clawdd banc** – clawdd sy'n tyfu ar dwmpath/crugyn o laswellt.

**To Talcennog** – To gyda llethrau ar y pedair ochr.

**Adeilad Rhestredig** - adeilad neu adeiledd arall sydd o bwysigrwydd pensaernïol neu hanesyddol penodol ac sy'n cael ei ddiogelu'n statudol gan Cadw. Ni ellir ei ddymchwel na newid ei ymddangosiad allanol, na'i ymddangosiad mewnol mewn rhai achosion, heb ganiatâd ffurfiol.

**Logia** – galeri ar agor ar un ochr neu fwy, weithiau gyda phileri.

**Fframiau pren ffug Duduraidd** - manylion pren ar ran uchaf adeilad, yn dynwared steil adeiladau Tuduraidd. Yn aml ni fydd ganddynt bwrpas strwythurol, ac maent yn cael eu rhoi ar y waliau allanol fel addurniadau'n unig. Fel arfer, mae'r fframiau wedi'u gwneud o bren neu rendr wedi'i fowldio neu ei beintio.

**Morter** – deunydd sy'n cael ei ddefnyddio wrth adeiladu i lenwi'r bylchau rhwng cerrig neu frics a'u glynu wrth ei gilydd.

**Twf naturiol** – heb ei gynllunio.

**Tir Pori** – cae glaswellt sy'n addas i dda byw bori arno.

**Pileri** – pileri, o gerrig fel arfer.

**Conglfeini** – cerrig neu frics a ddefnyddir fel nodwedd addurniadol ar gorneli adeilad. Mae'r cerrig fel arfer yn cael eu gosod mewn patrwm bach a mawr am yn ail.

**Cyfarpar Dŵr Glaw** – eitemau fel peipiau glaw, gwteri a chynwysyddion sy'n cael gwared ar ddŵr glaw oddi ar adeilad.

**Rendr** – gorchudd plastr, calch neu sment.

**Wedi'i rendro** – wedi'i orchuddio â phlaster.

**Ailbwyntio** – atgyweirio uniadau wal.

**Teils Crib** – y teils sy'n gorchuddio man uchaf to.

**Ffenestr do** – agoriad â gwydr arno mewn to.

**Cerrig Llanw** – cerrig o siâp a maint afreolaidd.

**Graddfa** – maint cymharol gwrthrych.

**Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur** - safleoedd anstatudol a ddynodir yn unol â Chanllawiau Cynllunio Bioamrywiaeth Atodol oherwydd eu pwysigrwydd o ran cadwraeth natur.

**Lleoliad** – safle / lleoliad.

**Ardal Dirlunio Arbennig** – ardal a nodwyd sydd â nodweddion tirlunio arbennig.

**Amlinell yn yr awyr** – amlinell gwrthrychau yn yr awyr.

**Bargodion Wedi'u Plygu** - bargodion llydan sy'n cael eu creu wrth i ran isaf to ymledu gan fod ongl y to yn llai.

**Grŵp Cynghori Ardaloedd Cadwraeth Gogledd-orllewin Caerdydd** – grŵp sy'n cynnwys aelodau ward lleol a thrigolion lleol sydd ag arbenigedd mewn materion cadwraeth. Nid oes gan y grŵp hwn y grym i wneud penderfyniadau ond mae'n gweithredu fel ymgynghorydd, wrth geisio sylwadau am geisiadau cynllunio.

**Gorchymyn Cadw Coed** - yn diogelu'r coed sydd wedi'u nodi yn y gorchymyn. Mae'r Gorchymyn yn ei gwneud hi'n drosedd i dorri, tocio, dadwreiddio, niweidio neu ddinistrio coeden a nodir yn y Gorchymyn, neu ganiatáu i hyn ddigwydd, heb wneud cais am ganiatâd ffurfiol gan yr Awdurdod Lleol.

**Graen Trefol** – patrwm trefniant a maint adeiladau a'u plotiau mewn anheddiad.

# Ffynonellau a Chyfeiriadau Cefndir


- The Buildings of Wales: Glamorgan – John Newman (1995)
- The Illustrated History of Cardiff's Suburbs – Dennis Morgan (2003)
- Pentyrch, Creigiau and Gwaelod-y-garth - Cymdeithas Hanes Lleol Pentyrch a'r Cyffiniau (1997)
- Cynllun Cymunedol Cyngor Cymuned Pentyrch
- Pentyrch Village Hall, Souvenir Brochure - Llewellyn, Dr (1976)
- Cofrestr Morgannwg o Dirluniau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru, Rhan 1: Parciau a Gerddi – Cadw (2000)
- Glamorgan Historian Vol. 1 – Stewart Williams (1963)
- Cynllun Lleol Creigiau, Pentyrch a Gwaelod-y-garth, Cynigion Terfynol - Cyngor Bwrdeistref Taf Elái (1992)
- Cynllun Lleol Taf Elái (Drafft a Adneuwyd) – Bwrdeistref Taf Elái (1995)
- Cynllun Strwythur Sir Morgannwg Ganol (Cymeradwywyd) – Cyngor Sir Morgannwg Ganol (Medi 1989)
- Cynllun Datblygu Unedol Caerdydd (Wedi'i Adneuo) - Cyngor Sir Caerdydd (2003) a'r Canllawiau Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd
- Strategaeth Ardaloedd Cadwraeth – Cyngor Sir Caerdydd (1997)
- Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990
- Cylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig – Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol
- Landscape Study of Cardiff, Volume 1: Landscape Assessment Final Report – Cyngor Sir Caerdydd (Mai 1999)


Cysylltwch â'r Tîm Cadwraeth i gael manylion am Adeiladau Rhestredig, coed a ddiogelir ar hyn o bryd gan Orchmynion Cadw Coed a'r dogfennau polisïau cynllunio y cyfeirir atynt yn y ddogfen.

# Diolchiadau


Cadw Henebion Cymru
Cyngor Cymuned Pentyrch
Grŵp Cynghori Ardaloedd Cadwraeth Gogledd Orllewin Caerdydd


# Manylion Cyswllt a Gwybodaeth:


**Y Tîm Cadwraeth**
**Cynllunio Strategol a'r Amgylchedd**
**Dinas a Sir Caerdydd, Ystafell CY4,**
**Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd,**
**Caerdydd. CF10 4UW.**
**Ffôn: (029) 2087 3485**

Am fanylion cyswllt a gwybodaeth:

Y Tîm Cadwraeth
Cynllunio Strategol a’r Amgylchedd
Dinas a Sir Caerdydd, Ystafell CY4,
Neuadd y Sir, Glanfa Iwerydd,
Caerdydd. CF10 4UW.
Ffôn: (029) 2087 3485